



## **Pwy yw'r Arweinwyr Cynllun Llifogydd**

Gwirfoddolwyr yw'r Arweinwyr Cynllun Llifogydd a all weithredu fel dolen gyswllt rhwng y gymuned a Chyfoeth Naturiol Cymru, cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd. Gall Arweinwyr Cynllun Llifogydd sicrhau fod ein negeseuon sy'n rhybuddio am lifogydd yn cyrraedd y gymuned leol. Gallant fod yn "llygaid a chlustiau" i ni drwy'n diweddarau am unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â llifogydd yn eu cymuned. Mewn ardal sydd mewn perygl gan lifogydd lle mae'r gymuned wedi cytuno i ddatblygu cynllun llifogydd i helpu i reoli effeithiau posibl llifogydd, gall yr Arweinydd Cynllun Llifogydd weithredu fel cydlynnydd y cynllun. Os datblygwyd cynllun llifogydd, rhoddir ffordd i'r Arweinydd Cyswllt Llifogydd gysylltu'n uniongyrchol â'n hystafell Gweithrediadau Llifogydd yn ystod argyfwng. Rhoddir pwynt cyswllt hefyd ar gyfer riportio ar broblemau fel rhwystrau mewn sianelau afon y tu allan i argyfwng.

## **Beth gall Arweinwyr Cynllun Llifogydd ei wneud?**

### **Cyn llifogydd:**

Mae rôl Arweinydd Cynllun Llifogydd yn dibynnu ar ofynion penodol pob cymuned a math/difrifoldeb y perygl o lifogydd lleol. Gall arweinwyr helpu i roi cychwyn ar gynllun, adnabod y problemau, ac awgrymu pwy all helpu mewn llifogydd a pha breswylwyr fyddai angen cymorth ychwanegol.

Gallai rôl Arweinydd Cynllun Llifogydd cyn achos o lifogydd gynnwys hefyd;

1. Helpu i godi ymwybyddiaeth o broblemau llifogydd o fewn y gymuned leol a pha gamau y gall pobl eu cymryd i warchod eu cartref.
2. Helpu i adnabod y trigolion bregus yn eu cymuned.
3. Annog pobl leol i gofrestru am wasanaeth rhybuddio llifogydd am ddim (os yw ar gael yn eu hardal)
4. Gwneud yn siŵr fod pobl yn ymwybodol o'r Llinell Rhybuddion Llifogydd 0345 988 1188 a gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru.
5. Pan fo gwasanaeth rhybuddio rhag llifogydd ar gael, sôn wrth bobl am y cod deialu cyflym 'quickdial'
6. Hybu pobl i helpu eu hunain o fewn y gymuned ac annog pobl i lenwi cynlluniau cartref unigol.
7. Mynychu cyfarfodydd cymuned a rhai lleol eraill i sicrhau fod materion llifogydd yn dal i gael proffil uchel.

8. Bod yn aelod o grŵp sy'n helpu i lunio cynllun llifogydd cymunedol i helpu i leihau effeithiau llifogydd.
9. Monitro'r afonydd neu sefyllfa'r llanw a allai effeithio ar eu cymuned, pan fo'n ddiogel gwneud hynny.
10. Cadw llygad ar yr adroddiadau tywydd diweddaraf.
11. Adrodd am broblemau fel pontydd yn blocio neu ddifrod i amddiffynfeydd rhag llifogydd wrth Gyfoeth Naturiol Cymru/Awdurdodau Lleol.

### **Yn ystod llifogydd:**

Mae Arweinwyr Cynllun Llifogydd yn ddolen gyswllt bwysig rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a'r gymuned mewn adegau o lifogydd. Mae hyn yn helpu i sicrhau fod y gymuned yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd/y rhagwelir ei fod am ddigwydd a pha gamau i'w cymryd. Bydd y preswylwyr yn dibynnu ar eu Harweinydd Cynllun Llifogydd i'w trefnu a'u harwain i ddechrau.

Gallai rôl Arweinydd Cynllun Llifogydd yn ystod llifogydd gynnwys hefyd;

1. Rhoi'r Cynllun Llifogydd ar waith.
2. Rhoi gwybod i swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru sydd ar ddyletswydd beth sy'n digwydd yn lleol.
3. Helpu i wneud yn siŵr fod pobl yn ymwybodol o'r sefyllfa a'u hannog i gymryd y camau priodol
4. Cydweithio â'r gwasanaethau brys a dweud wrthynt am unrhyw un sydd angen help neu gymorth
5. Cadw cofnod o'r hyn ddigwyddodd a'r camau a gymerwyd
6. Tynnu lluniau'r llifogydd yn y gymuned leol, os yw hi'n briodol ac yn ddiogel i wneud hynny.

### **Ar ôl llifogydd:**

Gallai rôl Arweinydd Cynllun Llifogydd ar ôl llifogydd gynnwys;

1. Helpu pobl a gafodd eu heffeithio drwy roi gwybodaeth iddynt a'u cyfeirio at gyrff a all helpu i glirio ar ôl llifogydd - e.e. y Fforwm Llifogydd Cenedlaethol a'r Awdurdod Lleol ayb, fel ag y'u rhestrir yn y Cynllun Llifogydd Cymunedol
2. Cyngori perchnogion tai i gysylltu â'u cwmnïau yswiriant cyn gynted ag y bo modd. Y rheswm am hyn yw y gall fod angen i aseswyr colledion ymweld cyn i eitemau a ddifrodwyd gael eu symud neu cyn bod unrhyw gontractwyr yn dod i mewn i wneud gwaith trwsio ayb.
3. Llunio adroddiad/ôl-drafodaeth gan ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod y llifogydd (uchod). Dylai hyn geisio cofnodi trefn pethau fel y digwyddasant a pha gamau a gymerwyd cyn, yn ystod ac ar ôl y llifogydd.
4. Adolygu a diwygio'r Cynllun Llifogydd i asesu beth aeth yn dda neu beth ellid ei wella a helpu i weithredu'r camau gwella sy'n codi.

## **Beth NA ddylai Arweinwyr Cynllun Llifogydd ei wneud**

- **Cymryd unrhyw gamau a allai beryglu eu diogelwch personol, neu ddiogelwch y cyhoedd.**
- Gwneud gwaith y gwasanaethau brys – maent yn bobl broffesiynol sydd wedi'u hyfforddi ac mae ganddynt yr offer cywir a dealltwriaeth o'u gwaith.
- Mynd i mewn i lifddwr - cofiwch y gall dim ond 15cm (6 modfedd) o ddŵr sy'n llifo'n gyflym eich ysgubo oddi ar eich traed. Mae llifddwr yn symud tyllau archwilio o'u lle ac yn cuddio rhwystrau peryglus eraill.
- Ceisio defnyddio cerbydau mewn ardaloedd o lifddwr
- Helpu staff Cyfoeth Naturiol Cymru neu'r Awdurdod Lleol i weithredu neu drwsio amddiffynfeydd rhag llifogydd.

## **Beth y MAE'N RHAID i Arweinwyr Cynllun Llifogydd ei wneud**

**Cymryd y gofal priodol bob amser gan nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn derbyn unrhyw atebolrwydd dros weithredoedd esgeulus Arweinwyr Cynllun Llifogydd.**

Am ragor o wybodaeth am y gwaith neu i wirfoddoli, anfonwch e-bost atom yn [floodawareness.wales@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:floodawareness.wales@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) neu ffoniwch (029 20) 466103.